Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth; Mid Wales Corporate Joint Committee

# CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (CTRh) CANOLBARTH CYMRU

Atodiad 9 – Cynllun Monitro a Gwerthuso

## CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU – CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Cynllun Monitro a Gwerthuso (CMG) hwn yn defnyddio amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (CTRhCC) fel sail ar gyfer monitro effaith CTRhCC.

Mae CTRhCC yn dangos y cysylltiadau rhwng amcanion CTRhCC a'r blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol yn Llwybr Newydd (cyfeiriwch at Atodiad 5) ac felly, trwy fonitro cynnydd yn erbyn amcanion CTRhCC bydd cynnydd rhanbarthol o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol hefyd yn cael ei fonitro. Mae'r CMG hefyd yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng amcanion CTRhCC a thargedau cenedlaethol perthnasol fel y rhai ar gyfer datgarboneiddio a newid moddol.

Mae'r CMG yn rhoi trosolwg o'r allbynnau a gaiff eu cyflawni gan CTRhCC; y canlyniadau a'r effeithiau disgwyliedig; a sut y bydd y manteision disgwyliedig hyn yn cael eu monitro. Mae'r CMG yn nodi sut y bydd canlyniadau tymor byr a chanolig ac effeithiau tymor hwy CTRhCC yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni a'r buddion yn cael eu gwireddu.

Mae'r CMG yn cynnwys set o fesurau monitro CTRhCC ac yn cynnwys enghreifftiau o wybodaeth sylfaen lle mae ar gael. Mae'r mesurau monitro yn cysylltu â'r fframwaith meini prawf llesiant a ddefnyddir yn yr Arfarniad Llesiant Integredig lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r CMG hefyd yn cynnwys dangosyddion a data sylfaen o Fframwaith Monitro Llwybr Newydd lle bo'n berthnasol, a fydd yn cael eu diweddaru'n barhaus gan Trafnidiaeth Cymru. Mae'r CMG yn darparu asesiad cychwynnol o ofynion casglu data a dulliau arfaethedig o gasglu data.

Bydd angen i amlder casglu data at ddibenion monitro adlewyrchu gofynion monitro CTRhCC. Mae canllawiau CTRh Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ar CTRh i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Felly mae'r CMG yn cynnwys mesurau realistig a phriodol y gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hadolygu a'u monitro'n flynyddol. Yn ogystal, dylid paratoi gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl tair blynedd i asesu a yw CTRh yn cyflawni ei ganlyniadau, yn darparu gwerth am arian, ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad hwn yn bwydo i mewn i'r CTRh dilynol ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r CCCT dilynol.

Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth yn gyfrifol am yr holl weithgareddau monitro ac adrodd i Lywodraeth Cymru.

**Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Cynllun Monitro a Gwerthuso**

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| Gwella **mynediad i bawb** at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad at feysydd hamdden (megis Parciau Cenedlaethol) a chysylltiadau gwell rhwng cymunedau sy'n cydnabod pwysigrwydd hygyrchedd i gynhwysiant cymdeithasol a chysylltiad cymdeithasol. | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>Allbynnau<br>Seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell, gwasanaethau trafnidiaeth newydd a gwell a phrosiectau newid ymddygiad. | • Mynediad gwell at wasanaethau allweddol<br>• Mynediad gwell rhwng cymunedau<br>• Profiad / bodlonrwydd defnyddwyr gwell | Mae effeithiau tymor hwy mynediad gwell at wasanaethau yn cynnwys<br>• Manteision iechyd a llesiant<br>• Cyfleoedd cyflogaeth gwell<br>• Manteision datgarbon-eiddio<br>• Manteision tagfeydd | Amherthnasol | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'u mesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael megis newid mewn lefelau cerdded a beicio, newid yn nifer y teithwyr, profiad/bodlonrwydd, newid yn nifer y bobl, dangosyddion llesiant neu newid mewn lefelau gwariant. | Crynodeb o ddata mynediad rhanbarthol i drafnidiaeth gyhoeddus a ddarperir yn yr Achos dros Newid (Adran 6.4.1).<br><br>Mae Adran 7.1 yr Achos dros Newid yn darparu data Mynediad i Wasanaethau MALIC sy'n tynnu sylw at y ffaith mai'r ALlau â'r gyfran fwyaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Powys (50.6%) a Cheredigion (50.0%).<br><br>Data amser teithio cyfartalog yn ôl dull teithio i gyrraedd gwasanaethau allweddol – cyfeiriwch at Ffigur 7.12 o asesiad llesiant Ceredigion.<br><br>Mae'n rhaid i drigolion Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Bugeildy ym Mhowys deithio tua 86 munud i gyrraedd eu hysbyty cyffredinol dosbarth agosaf.<br><br>Yn 2019, roedd 17% o bobl ym Mhowys yn teimlo'n unig. | **M1** – Canran y teithiau yn ôl cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – Mesur allweddol M1 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S1** – Amser teithio cyfartalog i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden – Yr amser teithio cyfartalog cyffredinol i wasanaethau allweddol yng Nghanolbarth Cymru yw 26.5 munud (2023) – Mesur atodol S1 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S2** – Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael gafael ar wasanaethau yn eu hardal leol – 82.3% o bobl ym Mhowys ac 86.2% o bobl yng Ngheredigion yn fodlon ar eu gallu i gael gafael ar wasanaethau lleol (2021-22) – Mesur atodol S2 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S3** – Canran y bobl o fewn pellter cerdded i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy – yng Nghanolbarth Cymru mae'r rhain yn cynnwys 29.2% ar gyfer teithio llesol, 14.5% ar gyfer bws, 14.8% ar gyfer bws neu drên, 14.8% a 0.6% ar gyfer trên (2023).<br><br>**S12** – Nid oedd angen cymorth ar 76.6% o bobl anabl i gael mynediad at wasanaethau rheilffordd TrC (2023).<br><br>**S13** – Mae 20% o orsafoedd trenau yng Nghanolbarth Cymru heb risiau. | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis data teithwyr trenau a bysiau, defnydd o brosiectau (e.e. clybiau ceir, beiciau trydan), arolygon teithio gweithle/addysg, data cyfrif cerddwyr a beicwyr, arolygon parcio, barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, data pobl a data Cyfrifiad teithio i'r gwaith (dangosydd tymor hwy).<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC. |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| | | | | | | | **S17** – Cost gyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd drwy drafnidiaeth gyhoeddus – Mesur atodol S17 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S18** – Canran y bobl sy'n teimlo na allant fforddio teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus – Mesur atodol S18 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | |
| Galluogi, annog a'i wneud yn hawdd **i bobl ddewis opsiynau trafnidiaeth a theithio mwy cynaliadwy** trwy fwy o wybodaeth, hyder, dewis, argaeledd, atyniad ac ymgysylltu â'r cyhoedd. | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau**<br>Prosiectau newid ymddygiad. | • Mwy o gerdded a beicio<br>• Mwy o ddefnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys cerbydau trydan)<br>• Lefelau is o ddefnyddio ceir<br>• Newid moddol o ddefnyddio ceir preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys cerbydau trydan). | Effeithiau tymor hwy newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy gan gynnwys:<br>• Manteision datgarboneiddio<br>• Manteision o ran tagfeydd<br>• Manteision iechyd a llesiant. | Targed newid moddol Llwybr Newydd yw i 45% o deithiau gael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio erbyn 2040. | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis cymryd rhan mewn prosiectau newid ymddygiad, newid mewn lefelau cerdded a beicio, newid yn nifer y teithwyr, newid yn y defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy (megis cerbydau trydan a chlybiau ceir) a thystiolaeth o newid moddol. | Data dulliau teithio i'r gwaith (Cyfrifiad 2021) – Adran 4.3 Achos dros Newid y CTRh.<br><br>Mae Cynlluniau Ynni Ardal Leol Powys a Ceredigion yn dangos bod 1% o gerbydau yn gwbl drydanol – Adran 9.3 yr Achos dros Newid.<br><br>Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel dull teithio – Canolbarth Cymru 43% (dadansoddiad rhanbarthol wedi'i ddarparu gan dîm yr Arolwg Cenedlaethol drwy TrC). Canran gwledig-trefol cenedlaethol a ddarparwyd yn yr Achos dros Newid (Adran 5.5). | **M1** – Canran y teithiau yn ôl cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – Mesur allweddol M1 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M2** – Canran y cerbydau allyriadau isel iawn neu dim allyriadau – data Cymru gyfan ym Mesur allweddol M2 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M4** – Pellter cyfartalog a deithiwyd fesul person – Mesur allweddol M4 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M5** – Canran y gweithlu sy'n gweithio o bell yn rheolaidd – mae 37.5% o'r gweithlu yng Nghanolbarth Cymru yn gweithio o bell fel arfer (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022-23)<br><br>**M6** – Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth – Mesur allweddol M6 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S4** – Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel ffordd o deithio – Mesur atodol S4 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | **Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC.<br><br>**Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis data teithwyr trenau a bysiau, defnydd o brosiectau (e.e. clybiau ceir, beiciau trydan), arolygon teithio gweithle/addysg, data cyfrif cerddwyr a beicwyr, arolygon parcio, barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, data pobl a data Cyfrifiad teithio i'r gwaith (dangosydd tymor hwy).<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC. |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| | | | | | | | **S11** – Canran y bobl a oedd yn fodlon ar eu taith – Mesur atodol S11 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | |
| Gwella **cysylltedd trafnidiaeth strategol** o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru er mwyn cefnogi twf economaidd, cludo nwyddau a thwristiaeth gynaliadwy. | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau**<br>Seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell, gwasanaethau trafnidiaeth newydd a gwell a phrosiectau newid ymddygiad. | • Dibynadwyedd amser teithio<br>• Lefelau cynyddol o deithio trawsffiniol drwy ddulliau cynaliadwy<br>• Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr | Effeithiau tymor hwy cysylltedd strategol<br>• Cyfleoedd cyflogaeth gwell<br>• Cyfleoedd addysgol gwell<br>• Mwy o dwristiaeth. | Amherthnasol | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis newid yn nifer y teithwyr trafnidiaeth gyhoeddus, newid yn nifer yr ymwelwyr a newidiadau yn nibynadwyedd amser teithio. | Crynodeb o ddata oedi rhwydwaith rhanbarthol a ddarperir yn yr Achos dros Newid (Adran 6.3).<br><br>Data twristiaeth Canolbarth Cymru yn yr Achos dros Newid (Adran 8). | **S1** – Amser teithio cyfartalog i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden – Yr amser teithio cyfartalog cyffredinol i wasanaethau allweddol yng Nghanolbarth Cymru yw 26.5 munud (2023) – Mesur atodol S1 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S6** – Canran y teithiau i atyniadau i ymwelwyr drwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy – Mesur atodol S6 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S9** – Canran y gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd ar amser – Mesur atodol S9 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S16** – Oedi cyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd – Canolbarth Cymru 1.5 eiliad y cilomedr (2022) – data ychwanegol ym Mesur atodol S16 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis data teithwyr trenau a bysiau, defnydd o brosiectau (e.e. clybiau ceir, beiciau trydan), arolygon teithio gweithle/addysg, data cyfrif cerddwyr a beicwyr, arolygon parcio, barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, data pobl a data Cyfrifiad teithio i'r gwaith (dangosydd tymor hwy).<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC. |
| Cyflawni **newid moddol** i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. | Mewnbynnau<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau**<br>Seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell, | • Mwy o gerdded a beicio<br>• Mwy o ddefnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys cerbydau trydan)<br>• Lefelau is o ddefnyddio ceir<br>• Newid moddol o ddefnyddio car | Effeithiau tymor hwy newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy gan gynnwys:<br>• Manteision datgarbon-eiddio<br>• Manteision o ran tagfeydd | Targed newid moddol Llwybr Newydd yw i 45% o deithiau gael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio erbyn 2040. | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni. | Data dulliau teithio i'r gwaith (Cyfrifiad 2021) – Adran 4.3 o Achos dros Newid y CTRh.<br><br>Mae Cynlluniau Ynni Ardal Leol Powys a Cheredigion yn dangos bod 1% o gerbydau yn gwbl drydanol – Adran 9.3 yr Achos dros Newid. | **M1** – Canran y teithiau yn ôl cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – Mesur allweddol M1 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M2** – Canran y cerbydau allyriadau isel iawn neu dim allyriadau – Mesur allweddol M2 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis data |

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| | gwasanaethau trafnidiaeth newydd a gwell a phrosiectau newid ymddygiad. | preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys cerbydau trydan) | • Manteision iechyd a llesiant. | | **Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis cymryd rhan mewn prosiectau newid ymddygiad, newid mewn lefelau cerdded a beicio, newid yn nifer y teithwyr, newid yn y defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy (megis cerbydau trydan a chlybiau ceir) a thystiolaeth o newid moddol. | Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel dull teithio – Canolbarth Cymru 43% (dadansoddiad rhanbarthol wedi'i ddarparu gan dîm yr Arolwg Cenedlaethol drwy TrC). Canran gwledig-trefol cenedlaethol a ddarparwyd yn yr Achos dros Newid (Adran 5.5). | **M3** – Cyfanswm cilometrau cerbyd a deithiwyd – Mesur allweddol M3 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M4** – Pellter cyfartalog a deithiwyd fesul person – Mesur allweddol M4 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M6** – Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth – Mesur allweddol M6 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S4** – Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel ffordd o deithio – Mesur atodol S4 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S5** – Canran y teithiau i orsaf drenau trwy gerdded, beicio neu ar fws – Yn 2019 roedd hyn yn 40% yng Nghanolbarth Cymru (cerdded 30.4%, ar fws 9.6%)<br><br>**S11** – Canran y bobl a oedd yn fodlon ar eu taith – Mesur atodol S11 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (Arolwg Teithio) | teithwyr trenau a bysiau, defnydd o brosiectau (e.e. clybiau ceir, beiciau trydan), arolygon teithio gweithle/addysg, data cyfrif cerddwyr a beicwyr, arolygon parcio, barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, data pobl a data Cyfrifiad teithio i'r gwaith (dangosydd tymor hwy).<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'i ddiweddaru'n barhaus gan Trafnidiaeth Cymru.<br><br>**Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru**<br>Data blynyddol a gyhoeddwyd yn hydref 2026. |
| Cynyddu **lefelau cerdded, beicio ac olwyno** yng Nghanolbarth Cymru. | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau** | • Mwy o gerdded a beicio<br>• Lefelau is o ddefnyddio ceir<br>• Newid moddol o ddefnyddio car preifat i gerdded, beicio ac olwyno | Effeithiau tymor hwy mwy o gerdded, beicio ac olwyno gan gynnwys:<br>• Manteision datgarboneiddio<br>• Manteision o ran tagfeydd | Targed newid moddol Llwybr Newydd yw i 45% o deithiau gael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio erbyn 2040. | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis hyd y seilwaith cerdded a beicio newydd a gwell a ddarperir. | Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel dull teithio – yng Nghanolbarth Cymru mae hyn yn 43% (dadansoddiad rhanbarthol wedi'i ddarparu gan dîm yr | **M1** – Canran y teithiau yn ôl cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – Mesur allweddol M1 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S4** – Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel ffordd o deithio – Mesur atodol S4 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis data |

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| | Seilwaith newydd a gwell ar gyfer cerdded, beicio ac olwyno a phrosiectau newid ymddygiad. | | • Manteision iechyd a llesiant, newid yn y canfyddiad o le (e.e. canol trefi). | | **Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis newid mewn lefelau cerdded a beicio, newid yn nifer y bobl neu yn y nifer sy'n defnyddio prosiectau e-feiciau. | Arolwg Cenedlaethol trwy TrC).<br><br>Mae cerdded a beicio mewn ardaloedd gwledig tua 10% yn llai na mewn lleoliadau trefol – Ffigur 8 yn yr Achos dros Newid.<br><br>Crynodeb o'r ddarpariaeth teithio llesol gyfredol – Adran 5.5 o'r Achos dros Newid.<br>Lefelau darpariaeth teithio llesol mewn trefi allweddol, e.e. Ceredigion – Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron; Powys – Aberhonddu, Llandrindod, y Drenewydd a'r Trallwng. | Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (Arolwg Teithio) | teithwyr trenau a bysiau, defnydd o brosiectau (e.e. clybiau ceir, beiciau trydan), arolygon teithio gweithle/addysg, data cyfrif cerddwyr a beicwyr, arolygon parcio, barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, data pobl a data Cyfrifiad teithio i'r gwaith (dangosydd tymor hwy).<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC.<br><br>**Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru**<br>Data blynyddol a gyhoeddwyd yn hydref 2026. |
| Lleihau **effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth**, megis drwy leihau'r defnydd o danwydd ffosil, cynnydd yn y defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a chysylltedd digidol gwell. | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau**<br>Seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell, seilwaith gwefru cerbydau trydan, gwasanaethau trafnidiaeth newydd a | • Mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy (gan gynnwys cerbydau trydan)<br>• Lefelau is o ddefnyddio ceir<br>• Newid moddol o ddefnyddio car preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys cerbydau trydan)<br>• Lefelau cynyddol o weithio gartref | Effeithiau tymor hwy lleihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth gan gynnwys<br>• Manteision datgarboneiddio<br>• Manteision o ran tagfeydd<br>• Manteision iechyd a llesiant. | Targedau Sero Net Cymru – lleihau allyriadau o drafnidiaeth teithwyr gan 22% erbyn 2025 (o 2019) a lleihau nifer y milltiroedd car sy'n cael eu teithio fesul person gan 10% erbyn 2030. | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar | Mae Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn dangos bod tua 16% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2021 (cyfwerth â $CO_2$) ym Mhowys a Cheredigion yn dod o drafnidiaeth. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffyrdd A ac is-ffyrdd yr awdurdod lleol, ond nid cefnffyrdd. (Adran 9.2 yr Achos dros Newid).<br><br>Mae 37.5% o'r gweithlu yng Nghanolbarth Cymru yn gweithio o bell fel arfer | **M2** – Canran y cerbydau allyriadau isel iawn neu dim allyriadau – Mesur allweddol M2 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M3** – Cyfanswm cilometrau cerbyd a deithiwyd – Mesur allweddol M3 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M4** – Pellter cyfartalog a deithiwyd fesul person – Mesur allweddol M4 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**M5** – Canran y gweithlu sy'n gweithio o bell yn rheolaidd – mae 37.5% o'r gweithlu yng Nghanolbarth Cymru yn | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis data teithwyr trenau a bysiau, defnydd o brosiectau (e.e. clybiau ceir, beiciau trydan), arolygon teithio gweithle/addysg, data cyfrif cerddwyr a beicwyr, arolygon parcio, barn y cyhoedd |

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| | gwell a phrosiectau newid ymddygiad. | • Cysylltedd band eang a symudol gwell. | | Mae 30 o'r gweithlu yn gweithio o bell yn rheolaidd. | gael, megis newid yn y defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy (megis cerbydau trydan a chlybiau ceir), newid yn y nifer sy'n gweithio o bell/gweithio gartref, tystiolaeth o newid moddol, data allyriadau, dangosyddion bioamrywiaeth, data cysylltedd band eang a symudol. | (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022-23) – Adran 4.3 yr Achos dros Newid. | gweithio o bell fel arfer (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022-23)<br><br>**M6** – Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth – Mesur allweddol M6 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S10** – Nifer y mannau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd – 124 yng Ngheredigion 124 a 114 ym Mhowys (2024)<br><br>**S23** – Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth – cyfanswm crynodiad cyfartalog ocsidau nitrogen (NOx) trafnidiaeth – 0.4 yng Ngheredigion a 0.4 ym Mhowys (2018) (ALlau â'r crynodiad isaf o lygredd aer yng Nghymru)<br><br>**S26** – Canran y gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu – Mesur atodol S26 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | ac arolygon defnyddwyr, data pobl a data Cyfrifiad teithio i'r gwaith (dangosydd tymor hwy).<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC. |
| Gwella **cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell** o'r system drafnidiaeth bresennol. | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau**<br>Seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell a phrosiectau newid ymddygiad. | • Dibynadwyedd amser teithio<br>• Llai o ddigwyddiadau llifogydd<br>• Cyfraddau gwrthdrawiadau is<br>• Llai o ddigwyddiadau lle cafodd pobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.<br>• Llai o digwyddiadau ar | Effeithiau tymor hwy cydnerthedd a diogelwch gwell gan gynnwys<br>• Manteision o ran tagfeydd<br>• Llai o ddamweiniau<br>• Manteision datgarboneiddio<br>• Manteision iechyd a llesiant | Targedau diogelwch ar y ffyrdd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith** | Gwrthdrawiadau angheuol neu ddifrifol – Yn 2022 roedd 54 yng Ngheredigion a 133 ym Mhowys ras0403.ods (live.com)<br><br>Crynodeb o ddata oedi rhwydwaith rhanbarthol a ddarperir yn yr Achos dros Newid (Adran 6.3).<br><br>Canran y ffyrdd A (ffyrdd sirol yr ALI) mewn cyflwr | **S16** – Oedi cyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd – yn 2022 yng Nghanolbarth Cymru roedd hyn yn 1.5 eiliad y cilomedr (2022) – data ychwanegol ym Mesur atodol S16 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S19** – Pobl a laddwyd neu a anafwyd ar y rhwydwaith trafnidiaeth – Mesur atodol S19 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S20** – Canran y bobl sy'n teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn ddiogel wrth | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, e.e. dadansoddiad o wrthdrawiadau; data'r Awdurdod Priffyrdd (cyflwr y rhwydwaith priffyrdd, cau ffyrdd, digwyddiadau llifogydd); |

| Beth mae'r CTRh yn ceisio ei gyflawni? | Beth yw'r newid rydych chi'n disgwyl ei weld? | | | | Sut ydych chi'n bwriadu mesur y newid hwn? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Mewnbynnau ac Allbynnau** | **Canlyniad h.y. beth fydd y canlyniad yn y tymor byr a chanolig** | **Effaith h.y. beth fydd yr effeithiau tymor hwy** | **Targedau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcan** | **Mesurau Monitro'r CTRh** | **Data Sylfaen Rhanbarthol** | **Mesurau Monitro Data Sylfaen Perthnasol Llwybr Newydd (lle bo ar gael)** | **Dull casglu data** |
| | | drafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hadrodd | | | Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, megis dadansoddiad o wrthdrawiadau (newid yn y nifer sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol neu nifer y digwyddiadau llifogydd), canfyddiad o ddiogelwch ar drafnidiaeth gyhoeddus a dibynadwyedd amser teithio. | gwael – 4.7% yng Ngheredigion a 3.9% ym Mhowys (2018-19). Canran rhwydwaith ffyrdd yr awdurdod lleol mewn cyflwr gwael yn ôl math o ffordd a blwyddyn (llyw.cymru) (Achos dros Newid Adran 9.5) | deithio – Mesur atodol S20 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S21** – Canran y seilwaith trafnidiaeth mewn cyflwr da – Mesur atodol S21 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru)<br><br>**S22** – Canran y seilwaith trafnidiaeth sydd mewn perygl o lifogydd – Yn 2023 roedd 4.4% o'r rhwydwaith ffyrdd lleol yng Nghanolbarth Cymru mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd (Ceredigion 3.5%, Powys 4.7%) | barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, e.e. defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, ymwelwyr.<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC. |
| Gwella **cyfnewid ac integreiddio** rhwng dulliau teithio mwy cynaliadwy o fewn cymunedau | **Mewnbynnau**<br>Cyllid a gwariant, pobl a sgiliau (i ddatblygu a gweithredu polisïau a phrosiectau o fewn y CTRh).<br><br>**Allbynnau**<br>Seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell, gwasanaethau trafnidiaeth newydd a gwell a phrosiectau newid ymddygiad. | • Mwy o gerdded a beicio<br>• Defnydd cynyddol o ddulliau teithio mwy cynaliadwy<br>• Lefelau is o ddefnyddio ceir<br>• Newid moddol o ddefnyddio'r car preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy | Effeithiau tymor hwy cyfnewid a chyfuno gwell rhwng dulliau trafnidiaeth cynaliadwy gan gynnwys<br>• Manteision datgarboneiddio<br>• Manteision o ran tagfeydd<br>• Manteision iechyd a llesiant. | Amherthnasol | **Dangosyddion mewnbwn**<br>Prosiect-benodol megis dadansoddiad gwariant a chyllid.<br><br>**Dangosyddion allbwn**<br>Prosiect-benodol megis seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell wedi'u cyflawni.<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael megis newid mewn lefelau cerdded a beicio, newid yn nifer y teithwyr, newid yn y defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy (megis cerbydau trydan a chlybiau ceir) a thystiolaeth o newid moddol. | Manylion cyfleusterau cyfnewid presennol yn yr Achos dros Newid – Dim ond naw o'r 20 gorsaf drenau yng Nghanolbarth Cymru sy'n cael eu gwasanaethu gan safle bws sydd o fewn pellter cerdded derbyniol.<br><br>Yng Nghanolbarth Cymru nid oes gan 11 gorsaf gyfleusterau parcio beiciau ac nid oes gan 8 gyfleusterau parcio ceir. | **S3** – Canran y bobl o fewn pellter cerdded i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy – yng Nghanolbarth Cymru mae 29.2% o fewn pellter cerdded i deithio llesol, 14.5% o fws, 14.8% o fws neu drên a 0.6% o drên (2023)<br><br>**S5** – Canran y teithiau i orsaf drenau trwy gerdded, beicio neu ar fws – yn 2019 yng Nghanolbarth Cymru roedd hyn yn 40% yn gyffredinol (cerdded 30.4%, ar fws 9.6%).<br><br>**S13** – Mae 20% o orsafoedd trenau yng Nghanolbarth Cymru heb risiau.<br><br>**S14** – Canran y bysiau a'r trenau sydd â gwybodaeth glyweledol – Mesur atodol S14 \| Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru) | **Dangosyddion Mewnbwn ac Allbwn**<br>Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd drwy gwblhau prosiectau'r CTRh<br><br>**Dangosyddion Canlyniad ac Effaith**<br>Wedi'i fesur ar sail prosiect-benodol ac ar sail ranbarthol lle mae data ar gael, e.e. dadansoddiad o wrthdrawiadau; data'r Awdurdod Priffyrdd (cyflwr y rhwydwaith priffyrdd, cau ffyrdd, digwyddiadau llifogydd); barn y cyhoedd ac arolygon defnyddwyr, e.e. defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, ymwelwyr.<br><br>**Mesurau Monitro Llwybr Newydd**<br>Wedi'u diweddaru'n barhaus gan TrC. |